# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 6 MEHEFIN 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | M H Jones | E J King |
| M B Lewis | R D Lewis | A H Stevens |
| D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd | T M White |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr N Davies, R Francis-Davies, J A Hale, P N I
R C Stewart

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard a/ac C Richards

5 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorwyr P B Black, M H Jones, E J King, M B Lewis, R D Lewis, P Lloyd, A H Stevens, D W W Thomas, L J Tyler-Lloyd a T M White – Cais Cynllunio Rhif 2017/0262/FUL(Eitem 5) – Personol oherwydd bod yr ymgeisydd yn gyd-gynghorydd.

Y Cynghorydd A H Stevens – Eitem 5 yr Agenda - Cais Parc Y Werin, Gorseinon – Personol a Rhagfarnol – yn rhan o drafodaethau cynt am y mater fel Cynghorydd Tref a gadawodd cyn y drafodaeth a Chais Cynllunio Rhif 2017/0795(Eitem 3) - rhan o drafodaethau cynt am y mater fel Cynghorydd Tref a gadawodd cyn y drafodaeth.

6 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2017 yn gofnod cywir.

7 **EITEMAU I'W GOHIRIO / TYNNU'N ÔL.**

Dim.

## 8 CAIS I GOFRESTRU TIR A ADWAENIR FEL PARC Y WERIN, GORSEINON, ABERTAWE FEL MAES TREF NEU BENTREF.

Cyflwynwyd adroddiad gan Sandie Richards, Prif Gyfreithiwr, ar ran Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Dealltwriaeth Busnes.

Amlinellwyd mewn manylder fanylion a hanes cefndirol perthnasol i'r cais am statws maes tref/pentref yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd, y profion cyfreithiol perthnasol, baich y prawf gofynnol, cylch gwaith a rôl yr Arolygydd, yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd a chanfyddiadau'r Arolygydd, y casgliad a'r argymhellion.

Ar ran yr ymgeiswyr, anerchodd Mr C Huggill y Pwyllgor, gan siarad o blaid y cais. Cyfeiriodd hefyd at y llythyr hwyr a gyflwynwyd ynglŷn â'r mater.

Atebodd Sandie Richards, gan ddatgan bod yr adran gyfreithiol wedi gweld ac ystyried y llythyr ac nid oedd yn newid canfyddiadau adroddiad yr Arolygydd.

**PENDERFYNWYD**

1. GWRTHOD cais y cofrestriad uchod.

2. Ni ddylai UNRHYW RAN o dir y safle cais gael ei ychwanegu i'r Rhestr o Feysydd Tref neu Bentref o dan adran 15 Deddf Tiroedd Comin 2006.

## 9 HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS - CAIS AM ORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS SY'N YMWNEUD Â LLWYBR TROED RHIF 4 YN FFERM BRYNMAEN YNG NGHYMUNED MAWR.

Cyflwynwyd adroddiad gan Sandie Richards, Prif Gyfreithiwr, ar ran Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Dealltwriaeth Busnes.

Amlinellwyd manylion a hanes cefndirol perthnasol i'r cais yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd, y profion cyfreithiol statudol i'w defnyddio, materion iawndal, a'r casgliadau anffurfiol yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**
1. cymeradwyo'r cais a chreu gorchymyn dargyfeirio llwybr cyhoeddus, ac
2. os derbynnir gwrthwynebiadau i'r gorchymyn, gyfeirio'r gorchymyn i'r Arolygiaeth Gynllunio er mwyn iddi benderfynu arno.

## 10 HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS - CAIS AM ORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR TROED MEWN CYSYLLTIAD Â RHAN O LWYBR TROED RHIF 51 YNG NGHLÔS VOYLART, DYNFANT

Cyflwynwyd adroddiad gan Sandie Richards, Prif Gyfreithiwr, ar ran Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Dealltwriaeth Busnes.

Amlinellwyd manylion a hanes cefndirol perthnasol i'r cais yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd, yr ystyriaeth a'r ymgynghoriadau yr ymgymerwyd â hwy, a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**
1. cymeradwyo'r cais a chreu gorchymyn dargyfeirio llwybr cyhoeddus, ac
2. os derbynnir gwrthwynebiadau i'r gorchymyn, gyfeirio'r gorchymyn i'r Arolygiaeth Gynllunio er mwyn iddi benderfynu arno.

11 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO O DAN DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO**'R ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**#(Eitem 1) Cais Cynllunio 2017/0648 - Hen Ganolfan Dewi Sant a thir cyfagos i'r gogledd ac i'r de o Heol Ystumllwynarth, canol y ddinas, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol manwl.

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr G Edwards (gwrthwynebwr) a Mr D Lewis (ymgeisydd)

Siaradodd y Cynghorydd R C Stewart (Arweinydd), a'r Cynghorydd R Francis-Davies, (Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr) o blaid y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Adroddwyd ar ohebiaeth hwyr gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent a oedd yn argymell amod ychwanegol.

Adroddwyd ar ohebiaeth hwyr gan Ganolfan Ddinesig Abertawe a oedd yn amlinellu sawl gwrthwynebiad ac a oedd yn argymell sawl amod ychwanegol.

Newidiadau i'r Amodau fel a ganlyn:
Amod 10
Dileu: *"Bydd y Côd yn berthnasol i'r ardal blaenau siop a fydd yn estyn 3m i gefn pob blaen siop".*

Amod 20
Newid y geiriad fel a ganlyn: *"Cyn dechrau ar bob cam o'r datblygiad, dylid llunio strategaeth draenio dŵr wyneb strategol ar gyfer y cam hwnnw..."*

Amod 21

Newid y geiriad fel a ganlyn: *"Bydd unrhyw gais materion neilltuedig yn cynnwys strategaeth draenio dŵr fanwl yn unol â materion a neilltuwyd ar bob cam y mae'n rhaid ceisio cymeradwyaeth ar ei chyfer. Bydd y strategaeth hon yn dangos sut y bydd rheoli dŵr yn y safle materion neilltuedig y ceisir cymeradwyaeth ar ei gyfer yn cyd-fynd â'r manylion a gymeradwywyd ar gyfer y strategaeth dŵr wyneb strategol..."*

Amod 30
Newid: "vii) *Arwyddion negeseuon amrywiol cysylltiedig"*

Amod 33
Newid geiriau: *'hour of operation' i 'hours of operation'.*
Ychwanegu at ddiwedd amod: *"Wedi hynny, bydd yr arena yn gweithredu yn ôl y cynllun a gymeradwywyd"*

Amod 36
Newid: 'measurers' i 'measures'

Amod 37
Ychwanegu *"oni bai y gellid dangos bod lefel o sŵn amgen yn dderbyniol, wrth ystyried y datblygiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cynllun"*

Amod 39
Newid: "it shall have a"

Amod 42
Ychwanegu at ddiwedd amod: *"a gedwir ar ôl hynny at ddibenion"*

**(Eitem 2) Cais cynllunio 2016/3619/FUL - 12-24 Ffordd Belle Vue, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**CYMERADWYWYD** y cais yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i **GYTUNDEB ADRAN 106** i ddarparu ar gyfer 30% o dai fforddiadwy a chyfraniad ariannol o £23,000 i gyllido gwaith isadeiledd priffyrdd, ac yn ddibynnol ar amodau sy'n cyd-fynd â'r argymhelliad.

**(Eitem 3) Cais cynllunio 2017/0795/FUL - Tir cyfagos â Heol Eifion, Gorseinon, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Mrs P Morgan (gwrthwynebwr) y pwyllgor.

**(Eitem 4) Cais cynllunio 2016/1510 - Yr Hen Glwb Cymdeithasol Four Seasons, Heol y Trallwn, Llansamlet, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**(Eitem 5) Cais cynllunio 2017/0262/FUL - 23 Teras Portia, Mount Pleasant, Abertawe**

**#(Eitem 6) Cais cynllunio 2017/0196/FUL - 3 Bay View, St Thomas, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Adroddwyd am lythyr o wrthwynebiad a dderbyniwyd yn hwyr.

Anerchodd Mr Shannon (gwrthwynebwr) a'r Cynghorydd Joe Hale (aelod lleol) y pwyllgor, gan siarad yn erbyn y cais.

**(Eitem 7) Cais Cynllunio 2017/0196/FUL – 3 Heol Beechwood, Uplands, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd Nick Davies (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

**(Eitem 8) Cais cynllunio 2017/0391/FUL - 25 Cilgant Mirador, Uplands, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr Nick Davies a Peter May (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

**DS:** Torrodd y pwyllgor am saib o bum munud yn dilyn eitem 8 am 4.45pm

**(Eitem 9) Cais cynllunio 2017/0840/FUL - 107 Heol Wern Fawr, Port Tennant, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd y Cynghorydd Joe Hale (aelod lleol) y pwyllgor gan siarad yn erbyn y cais.

**(Eitem 10) Cais Cynllunio 2017/0843 - 39 Stryd FUL - 39 Sebastopol, St Thomas, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd y Cynghorydd Joe Hale (aelod lleol) y pwyllgor gan siarad yn erbyn y cais.

**(Eitem 11) Cais cynllunio 201/0844/FUL - 3 Benthall Place, St Thomas, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr K Thomas a Mr M Davies (gwrthwynebwyr) a'r Cynghorydd Joe Hale (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

**#(Eitem 12) Cais cynllunio 2017/0845/FUL - 40 Heol Danygraig, Port Tennant, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd y Cynghorydd Joe Hale (aelod lleol) y pwyllgor gan siarad yn erbyn y cais.

Adroddwyd am lythyr o wrthwynebiad a dderbyniwyd yn hwyr.

12 **PENDERFYNIADAU APELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO.**

Cyflwynwyd adroddiad "er gwybodaeth" gan yr arweinydd tîm ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a oedd yn amlinellu canlyniadau pedwar penderfyniad apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio yn erbyn penderfyniadau gan y Pwyllgor Cynllunio.

Amlinellwyd crynodeb o gefndir y pedwar penderfyniad yn yr adroddiad ynghyd â'u goblygiadau ar benderfyniadau'r pwyllgor yn y dyfodol a dyfarniadau o gostau posib.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.20 pm

**CADEIRYDD**